

**Tribiwnlys
Addysg Cymru**



**Education Tribunal
for Wales**


Beth ydy apêl?

Llyfryn i blant



Cysylltwch â ni yn TAC os oes gennych unrhyw gwestiynau ar ôl i chi ddarllen y llyfryn hwn:

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â'r tribiwnlys am fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon.



Llinell Gymorth:
03000 25 9800



E-bost:
tribiwnlysaddysg
@llyw.cymru



Gwefan:
tribiwnlysaddysg
.llyw.cymru



Post:
Uned Tribiwnlysoedd
Cymru
Blwch SP 100
Llandrindod
LD1 9BW

Mae'r llyfryn hwn yn dweud:

Beth ydy apêl	3
Am beth y gallwch apelio	6
Terfynau amser pwysig	7
Pwy sydd yn gallu helpu	8
Beth sydd yn digwydd nesaf	10
Dwedwch wrthym os oes gennych cyfaill achos	12

Dewis iaith

Mae'r tribiwnlys yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Mae'r tribiwnlys hefyd yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Gallwch chi gyflwyno ffurflenni, dogfennau a chyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r tribiwnlys yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Beth ydy apêl?

Weithiau mae plant angen mwy o help yn yr ysgol neu gyda'u haddysg er mwyn iddynt allu dysgu.

Apêl ydy pan fyddwch chi'n dweud wrthyn ni eich bod yn anghytuno gyda rhai penderfyniadau sydd i'w gwneud â'ch addysg.

Er enghraifft, mewn apêl, gallwch ddweud wrthyn ni am:


- pam eich bod yn teimlo eich bod angen mwy o help i ddysgu,
- pa fath o help fyddai'n gwneud pethau'n well i chi,
- gall apêl fod hefyd am y math o ysgol yr ydych yn mynd iddi.

Mae eich rhieni hefyd yn gallu gwneud apêl. Felly mae apêl hefyd yn digwydd pan fydd eich rhiant yn dweud wrthyn ni ei fod ef neu hi yn anghytuno gyda phenderfyniad am eich addysg.



Gofynnwch i ni yn **TAC**, os ydych chi, ar ôl darllen y llyfryn hwn yn dal yn ansicr beth ydy **apêl**, sut i wneud **apêl** a'r terfyn amser


Tribiwnlys ydy **TAC**. Mae pobl yn mynd i dribiwnlys os ydyn nhw'n anhapus am rai penderfyniadau sydd yn effeithio arnyn nhw.



Mae tribiwnlys yn debyg i **ddyfarnwr**. Dydyn ni ddim yn cymryd ochrau ond rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod rheolau pwysig o'r enw deddfau, yn cael eu dilyn yn gywir pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud


Mae deddfau yn dweud pethau fel bod rhaid i blentyn fynd i'r ysgol neu os nad ydyn nhw'n mynd i'r ysgol mae'n rhaid iddyn nhw gael rhyw fath arall o addysg.

Os ydyn ni'n darganfod nad ydy'r ddeddf yn cael ei dilyn yn gywir yna gall y tribiwnlys wneud gorchymyn i newid pethau neu i gywiro pethau.



Er enghraifft, gall gorchymyn tribiwnlys fod am:

- Pa help ydych chi ei angen i ddysgu; a
- Pa ysgol ydych chi'n mynd iddi.



Byddwn yn dweud wrthych chi os nad ydyn ni'n cytuno gyda'ch apêl. Bydd yr apêl yn cael ei gwrthod ac ni fydd gorchymyn tribiwnlys yn cael ei wneud.



Geiriau i helpu.

Awdurdod lleol

Mae'r **awdurdod lleol** yn rhan o'r llywodraeth. Mae'r bobl sydd yn gweithio i awdurdod lleol yn gofalu am lawer o wasanaethau, fel eich ysgol.

Anghenion dysgu ychwanegol

Gall plentyn fod ag **anghenion dysgu ychwanegol** os ydy e angen rhagor o help yn yr ysgol neu help gyda'i addysg er mwyn gallu dysgu.

Asesiad ac Ail-asesiad

Mae **asesiad** ac **ail-asesiad** yn golygu gweld a oes gan blentyn anghenion addysgol arbennig ac os felly, sut mae modd cwrdd â'r rhain yn yr ysgol.

Cynllun datblygu unigol

Mae **cynllun datblygu unigol** yn debyg i adroddiad. Mae'n cael ei ysgrifennu gan yr awdurdod lleol am anghenion addysgol arbennig y plentyn. Gall yr awdurdod lleol benderfynu bod plentyn angen datganiad ar ôl gwneud asesiad. Bydd yn dweud os ydy plentyn angen help ychwanegol yn yr ysgol a pham.

Am beth y gallwch apelio.

Dim ond am rai pethau ynghylch eich addysg y gallwch apelio. Rowch gylch o amgylch Ydy neu Nac ydy i weld os ydych chi'n gallu apelio:

Ydy'r awdurdod lleol wedi penderfynu nad oes gennych anghenion dysgu ychwanegol?

Neu ydy'r awdurdod addysg wedi gwneud asesiad ond wedi penderfynu peidio â gwneud cynllun datblygu unigol?

Ydy

**Nac
ydy**

Ydy'r awdurdod lleol wedi gwneud cynllun datblygu unigol ar eich cyfer neu wedi gwneud newidiadau i'ch cynllun nad ydych yn hapus amdanyn nhw?

Ydy

**Nac
ydy**

Ydy'r awdurdod lleol wedi penderfynu nad ydych chi angen cynllun datblygu unigol erbyn hyn, neu ar ôl ail-asesu eich anghenion wedi penderfynu peidio â newid eich cynllun?

Ydy

**Nac
ydy**

Ydy'r awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â chymryd cyfrifoldeb am eich cynllun datblygu unigol ar ôl i rywun ofyn iddynt wneud hynny?

Ydy

**Nac
ydy**

Ydy'r awdurdod lleol wedi penderfynu peidio â gwneud penderfyniad am rywbeth oherwydd nad ydyn nhw'n credu bod unrhyw beth wedi newid?

Ydy

**Nac
ydy**

Ydy'r awdurdod lleol wedi enwi ysgol neu le i fyw yn eich cynllun datblygu unigol nad ydych chi'n hapus ag ef?

Ydy

**Nac
ydy**

Os ydych wedi dweud Ydy i un o'r rhain, mae'n bosibl y gallwch wneud apêl.

Terfynau amser pwysig!

Rhaid i'r awdurdod lleol ysgrifennu atoch i ddweud beth ydy eu penderfyniad am eich addysg. Rhaid iddo hefyd ddweud yn y llythyr y gallwch apelio i ni yn TAC os ydych yn anghytuno gyda'r penderfyniad.

Bydd y llythyr yn dweud rhywbeth fel hyn:

At: Annwyl (bydd eich enw yma)

Rydyn ni wedi penderfynu peidio â gwneud cynllun datblygu unigol i chi. Os **nad ydych yn cytuno** gyda'r penderfyniad hwn gallwch apelio i TAC.



Mae gennych 8 wythnos i wneud eich apêl i TAAAC.

Oddi wrth: eich awdurdod lleol

Neu efallai
y bydd yn
dweud..

At: Annwyl (bydd eich enw yma)

Rydyn ni wedi gwneud newidiadau i'ch cynllun datblygu unigol. Os **nad ydych yn cytuno** gyda beth rydyn ni wedi'i ddweud am eich anghenion dysgu arbennig, yr help y byddwch yn ei gael yn yr ysgol neu'r ysgol y byddwch yn mynd iddi, gallwch apelio i TAC.



Mae gennych **8 wythnos** i wneud eich apêl i TAC.

☐ Oddi wrth: eich awdurdod lleol



Mae gennych 8 wythnos i wneud apêl. Mae'r 8 wythnos yn cychwyn o'r dyddiad y mae'r awdurdod lleol wedi dweud wrthyh am ei benderfyniad terfynol mewn llythyr.



Pwy sydd yn gallu helpu?

Pobl fydd yn gallu eich helpu gyda'ch apêl:



Cyfaill Achos

Cyfaill achos ydy person sydd yn eich adnabod yn dda. Gall fod yn rhywun yn eich teulu neu rhywun fel athro/athrawes neu weithiwr cymdeithasol. Dim ond os bydd y Tribiwnlys yn penderfynu bod angen mwy o help arnoch i ddeall y bydd gennych ffrind achos.

Gallwch wneud apêl eich hyn neu gyda help cyfaill achos. Gall cyfaill achos eich helpu a'ch cefnogi chi mewn sawl ffordd, trwy:

- osgoi neu ddatrys anghydfod gyda'r awdurdod lleol gan ddefnyddio trefniadau datrys anghydfod,
- trafod gyda chi a ddylech wneud apêl ai peidio,
- llenwi'r Cais Apêl a'i anfon at TAC,
- derbyn gwybodaeth am yr apêl,
- paratoi datganiad achos,
- sicrhau bod eich dymuniadau a'ch barn yn cael ei gynrychioli mewn gwrandawiadau,
- eich cynghori ar ddatblygiad a chanlyniad apêl.

Bydd angen i'ch Cyfaill achos ddarllen ein llyfryn: Plant nad oes ganddynt alluded, a chyfeillion achos.

Bydd angen i'ch cyfaill achos lenwi ac anfon ein ffurflen datganiad cyfaill achos yn ôl atom.



Eiriolydd

Mae Eiriolydd yn rhywun yr ydych yn teimlo'n gyfforddus i siarad gyda nhw ac a fydd yn gwrando arnoch chi a dweud wrthyn ni, neu yn eich helpu chi i ddweud wrthyn ni, sut yr ydych yn teimlo am yr apêl a pha newidiadau yr ydych eisiau eu gwneud. Efallai y byddan nhw yn gallu eich helpu gyda'ch apêl hefyd.

Efallai bod rhai plant a phobl ifanc heb neb i siarad drostynt. Maen nhw'n gallu cael help gan eiriolydd proffesiynol annibynnol sydd wedi derbyn hyfforddiant fel eiriolydd ac nad yw'n rhan o'ch sefyllfa. Maen nhw'n gallu eich helpu i ddweud wrth oedolion neu wrthyn ni ar eich rhan, beth yr ydych eisiau ei weld yn digwydd.

Rhaid i'ch awdurdod lleol eich cyfeirio at eiriolydd os ydych yn gofyn iddyn nhw am un.



FREEPHONE
080880 23456

[MEIC CYMRU](#) Gallwch gysylltu hefyd yn rhad ac am ddim gyda meic, y llinell gymorth eiriolaeth a chyngor cyfrinachol 24/7 i blant a phobl ifanc.

Os ydych chi'n penderfynu gwneud apêl gallwch siarad gyda phobl eraill hefyd sydd yn gallu eich helpu:

Gallwch siarad gyda phobl yn eich **ysgol** neu o'r **awdurdod lleol**. Gallwch ddweud wrthyn nhw pam eich bod yn anhapus a pha newidiadau yr ydych eisiau eu gwneud.

Rhaid i'ch awdurdod lleol chi eich rhoi chi a'ch cyfaill achos, os oes gennych un, mewn cysylltiad â phobl sydd wedi derbyn hyfforddiant arbennig i helpu i ddatrys anghydfod. Mae hyn yn cael ei alw yn **wasanaeth datrys anghydfod**.



Beth sy'n digwydd nesaf?

1. Cyfaill achos

Gallwch ddednyddio'r ffurflen yng nghefn y llyfryn i roi enw a chyfeiriad eich cyfaill achos os oes gennych un.

Mae'n cymryd amser hir i orffen y pŵs. Mae'r cyfan yn cymryd tua 5 mis o pan fyddwn yn derbyn eich apêl tan y byddwn yn gwneud penderfyniad.

4. Datganiadau achos

Rydym ni yn anfon copi o'r holl wybodaeth yr ydym wedi'i dderbyn am eich apêl atoch chi a'ch cyfaill achos ac at yr awdurdod lleol.

5. Gwrandawriad

Ni sydd yn trefnu gwrandawriad

Dyma lle rydych chi, eich cyfaill achos a'r awdurdod lleol yn gallu dod i siarad â panel Tribiwnlys

Does dim rhaid i chi fynd i'r gwrandawriad. Ond dos ydych chi, rhaid i chi dodd â rhywun sydd yn gallu gofalu amdanoch chi rhag ofn eich bod yn penderfynu peidio ag aros am y gwrandawriad cyfan.

Mae apêl fel jigso mawr. Mae llawer o ddarnau gwahanol y mae'n rhaid i ni eu rhoi at ei gilydd er mwyn i ni weld y darlun cyfan.

2. Cais apêl

Rhaid i chi neu eich cyfaill acos, os oes gennych un, lenwi'r Cais apêl.

Mae gennych 2 fis i wneud cais apêl. Mae's 2 fis yn dechrau o'r dyddiad pan ddywedodd yr awdurdod lleol wrthydd chi am ei benderfyniad terfynol mewn llythyr.



3. Cofrestru

Rydyn ni yn anfon copi o'ch cais apêl chi at yr awdurdod lleol.

Bydd ganddoch chi a'ch cyfaill acos a'r awdurdod lleol gyfle i anfon gwybodaeth atom am yr apêl. Rhydym ni'n galw hyn yn ddatganiad achos. Os ydy'r awdurdod lleol yn anghytuno gyda'ch apêl, bydd angen iddo dweud pam wrthym ni.



6. Penderfyniad

Bydd y panel triwlynys yn gwrandao ar eich ochr chi ac ar ochr yr awdurdod lleol.

Yna mae'r panel triwlynys yn gwneud penderfyniad.

Byddwn ni yn ysgrifennu atoch chi neu at eich cyfaill achos a'r awdurdod lleol i ddweud wrthydd chi beth ydy'n penderfyniad.


6

Tribunal Decision

Dwedwch wrthym os oes gennych chi gyfaill achos

Os ydych yn penderfynu gwneud apêl gallwch:

- Dwedwch wrthym enw a chyfeiriad eich ffrind achos, os oes gennych un. Yna byddwn yn anfon cais apêl a'r holl wybodaeth am eich apêl at eich ffrind achos. NEU
- Cysylltwch â ni yn TAC a gofyn i ni anfon cais apêl atoch neu lawr lwythwch gais apêl o'n gwefan.



Llinell Gymorth:
0300 025 9800



Ebost:
tribiwnlysaddysg
@llyw.cymru



Gwefan:
tribiwnlysaddysg
.llyw.cymru



Post:
Uned Tribiwnlysoedd Cymru
Blwch SP 100
Llandrindod
LD1 9BW

Nodiadau:

[illegible]

[illegible]

Nodiadau:

[illegible]

[illegible]